Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

2 Mehefin 2009

Cyfansymio: Angen mwy o her ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed mewn gwersi Mathemateg

Mae safonau addysgu mathemateg mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn gwella ar y cyfan, ond nid yw llawer o ysgolion yn rhoi digon o her i ddisgyblion weithio i'w llawn botensial.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae llawer o ysgolion cynradd a babanod wedi llwyddo i wella safonau cyflawniad disgyblion mewn mathemateg dros y blynyddoedd. Yn yr ysgolion gorau, mae'r staff yn herio'r disgyblion yn effeithiol ac yn trafod gyda'u disgyblion sut y gallant ddefnyddio eu medrau mewn mathemateg i ddatrys problemau ac i gofnodi eu canfyddiadau mewn gwahanol gyd-destunau a sefyllfaoedd.

'Fodd bynnag, er 2003, mae canlyniadau asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol wedi aros yr un fath. Mae angen i ysgolion ganolbwyntio ar gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso mathemateg yn eu gwaith bob dydd, gan gynnwys gwella lefel yr her ar gyfer y rheiny sy'n fwy galluog er mwyn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau."

Caiff llawer o wersi mathemateg eu haddysgu gyda chyflymder a brwdfrydedd da sy'n cael effaith gadarnhaol ar fwynhad y disgyblion a'u hagwedd tuag at y pwnc. Fodd bynnag, mae Estyn yn adrodd nad oes gan rai athrawon hyder na dealltwriaeth fathemategol, sy'n aml yn arwain at orddibynnu ar daflenni gwaith a gwendidau wrth benderfynu ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu nesaf.

Hefyd, canfu arolygwyr Estyn nad oes digon o gysondeb na chywirdeb yn y modd y caiff disgyblion eu hasesu mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Weithiau, mae hyn yn golygu bod athrawon yn dyfarnu lefel i ddisgyblion mwy galluog nad yw'n adlewyrchu eu gallu yn llawn. Gall hyn arwain at ddisgyblion yn cael gwaith sy'n rhy hawdd iddynt, a gorfod gweithio ar fwy o enghreifftiau o'r un gweithgaredd yn hytrach nag ar dasgau newydd sy'n herio eu medrau meddwl a datrys problemau.

Adroddodd arolygwyr fod arwyddion cynnar yn dangos bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gyda phwyslais ar ddysgu ymarferol, yn helpu i godi safonau cyflawniad, yn arbennig ar gyfer bechgyn sy'n cael mathemateg yn heriol.

Mae cymhareb y staff i'r disgyblion mewn dosbarthiadau i blant rhwng 3 a 7 oed hefyd yn gwella yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nododd arolygwyr y bydd llawer o'r staff newydd yn weddol amhrofiadol wrth asesu gwaith disgyblion mewn mathemateg.

Mae Estyn yn argymell y dylai staff ymestyn eu dealltwriaeth o fathemateg fel y gallant nodi'n well yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu nesaf, ac yn cynnig y dylai ysgolion rannu mwy o arfer dda.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn ‘Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion 3 i 7 oed’ gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn www.estyn.gov.uk

- Ym mis Medi 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘Y Wlad sy’n Dysgu’ fel rhaglen strategol ar gyfer addysg yng Nghymru hyd 2010. Dilynodd ‘Y Wlad sy’n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith’ chwe blynedd yn ddiweddarach. Gyda’i gilydd, mae’r adroddiadau hyn yn nodi’r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llwyddo mewn addysg yng Nghymru, gan leihau nifer y disgyblion sy’n gadael yr ysgol gynradd heb ddealltwriaeth dda o fathemateg.

- Estyn yw’r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal archwiliadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion meithrin a lleoliadau a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau) neu a ariennir ganddynt, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant i athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.